*CYLCHLYTHYR HANNER TYMOR 13/02/26* HALF TERM NEWSLETTER

*Mae'r wythnosau wedi hedfan ac rydyn ni bron wedi cyrraedd hanner tymor! Mae'r glaw yn cwympo ond mae'n hyfryd gweld y Gwanwyn yn dechrau codi ei ben unwaith eto. O'r ffair lyfrau i ddiogelwch ar y we, mae wedi bod yn wythnos llawn dysgu, profiadau a llawer o hwyl i'n disgyblion.*

The weeks have flown by and we are almost at half term! Although the rain still falls, it has been lovely to see the first signs of spring. From the book fair to online safety, it has been a busy and enjoyable week full of learning experiences for our pupils.

*RHIANT LYWODRAETHWR*

*Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen fel Rhiant Lywodraethwr Ysgol Glan Ceubal. Byddaf mewn cysylltiad ar ôl hanner tymor gyda manylion ynghylch y broses bleidleisio.*

PARENT GOVERNOR

Thank you to everyone who has expressed an interest in becoming a Parent Governor at Ysgol Glan Ceubal. I will be in touch after half term with details about the voting process.

*BYRBRYDAU IACHUS DI-GNAU*

*Hoffwn atgoffa pawb ein bod yn ysgol iachus di gnau, felly ar gyfer byrbrydau bore ac o fewn bocsys bwyd hoffwn annog i chi ddarparu ffrwyth neu fyrbryd iachus megis iogwrt. Rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o blant sy'n bwyta byrbrydau megis creision neu losin ar gyfer eu byrbryd canol bore. Oes modd i ni wirio nad oes cnau ym myrbrydau'r plant wrth ddod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Diolch am eich cyd-weithrediad.*

HEALTHY NUT-FREE SNACK REMINDER

*We would like to remind you all that we are a healthy, nut free school, therefore for morning snack we would like to encourage you to please provide a healthy snack such*

*as fruit or yogurt for your child. We have seen an increase in the amount of unhealthy snacks such as crisps and sweets that are being eaten during mid morning snack.*

Could we please check that there are no nuts in children's snacks brought into school. Remember we are a healthy Nut-Free School. *Thank you for your understanding.*

*GWYBODAETH GYSWLLT GYFOES /*

*Yn ddiweddar rydym wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n newid cyfeiriadau, e-byst neu rifau ffôn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r swyddfa am unrhyw newidiadau gan ei bod yn hanfodol ein bod yn gallu cysylltu â chi mewn argyfwng.*

*Dwedwch wrthym hefyd os yw rhifau ffôn cysylltiadau brys eich plentyn wedi newid, gan gynnwys neiniau, teidiau neu berthnasau eraill sydd ar ein system.*

Anfonwch unrhyw ddiweddariadau at: ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk

UPDATED CONTACT INFORMATION

Of late, we have noticed an increase in families changing addresses, email addresses or telephone numbers. Please inform the school office of any updates so that we can contact you quickly in an emergency.

Please also let us know if any emergency contact numbers have changed.

Please email updates to: ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk

*BALCHDER PEL RWYD!*

*Llongyfarchiadau enfawr i'r disgyblion a fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd ddydd Mawrth. Cafwyd llawer o hwyl ac roedd pawb yn chwarae gyda pharch a brwdfrydedd.*

NETBALL PRIDE!

Congratulations to the pupils who represented the school at the Urdd Netball Tournament on Tuesday. They played with smiles on their faces and showed fantastic sportsmanship throughout.

*DIOLCH I'R CYNGORAU YSGOL*

*Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu'r cardiau gwybodaeth defnyddiol iawn. Rydym wedi dysgu llawer am ein Llywodraethwyr, staff ac aelodau'r cyngor ysgol.*

THANK YOU SCHOOL COUNCILS

Thank you to the school council for organising the informative cards — we have learnt so much about our staff, governors and school council members.

*CYNGOR LLES*

*Diolch yn fawr i'r Cyngor Lles am drefnu gweithgareddau llesiant yr wythnos hon ac ar draws y tymor. Rwy'n edrych ymlaen at weld y blog ddiweddar!*

WELLBEING COUNCIL

Thank you to the wellbeing council for arranging the wellbeing activities this week and throughout the term. I always look forward to seeing your blog following the events too!

*CLYBIAU'R YSGOL*

*Diolch o galon i'r holl staff am ddarparu clybiau hwylus, diddorol a chyfoethog i'n disgyblion cyn ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod oriau'r ysgol.*

SCHOOL CLUBS

Thank you to all the staff for providing fun, interesting and enriching clubs for our pupils before school, after school and during the school day.

*YMWELIADAU A PHROFIADAU*

*Dydd Mercher ymwelodd Corwen â Chastell Caerdydd fel rhan o'u gwaith prosiect — profiad gwych a llawn hwyl!*

VISITS AND EXPERIENCES

On Wednesday, Corwen visited Cardiff Castle as part of their class project — a wonderful and memorable experience.

*HWYL GYDA PBUZZ*

*Cafodd Amlwch fore bendigedig ddydd Mawrth wrth berfformio yng nghyngerdd PBuzz yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd. Roedd ymddygiad ac angerdd y disgyblion yn rhagorol — rydym yn falch iawn ohonoch!*

PBuzz PERFORMANCE

Amlwch class had a fantastic morning performing at the PBuzz concert at the All Nations Centre. Their behaviour and enthusiasm made us incredibly proud.

*DYDD MIWSIG CYMRU*

*Roedd yr awyrgylch heddiw yn ysbrydoledig wrth i'r ysgol gyfan ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Diolch yn fawr i'r athrawon a'r Criw Cymraeg am drefnu gweithgareddau gwych, ac i Mei Gwynedd am berfformiad byw arbennig iawn a gafodd groeso cynnes gan y disgyblion.*

WELSH MUSIC DAY

Today was truly inspiring as we celebrated Welsh Language Music Day across the school. Thank you to our teachers, Criw Cymraeg and to Mei Gwynedd for an exciting live performance enjoyed by everyone.

*DYDDIADAU PWYSIG*

*23 Chwefror – Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol*

*24 Chwefror – Eisteddfod yr Ysgol*

*Conwy – Gwyrdd | Taf – Glas | Teifi – Melyn*

*(Os nad ydych yn siŵr ym mha lys mae eich plentyn, cysylltwch ag athro'r dosbarth.)*

*25–26 Chwefror – Blwyddyn 3 yn ymweld â Chanolfan Breswyl Bae Caerdydd*

*28 Chwefror (Sadwrn) – Eisteddfod y Clwstwr, Ysgol Gyfun Glan Taf*

*2 Mawrth – Gwisgwch rywbeth lliwgar i'r ysgol er cof am Erwan*

*5 Mawrth – Dathlu Diwrnod y Llyfr yn Ysgol Glan Ceubal (Tybed beth ydych chi'n gwisio i ddarllen eich hoff lyfr cyn gwely? Dewch yn eich pyjamas a dewch a'ch hoff lyfr)*

*6 Mawrth – Twmpath wedi trefnu gan Gyfeillion Ysgol Glan Ceubal. Mwy o fanylion ar wahan.*

IMPORTANT DATES

23 February – All pupils return to school

24 February – School Eisteddfod

Conwy – Green | Taf – Blue | Teifi – Yellow

(If you are not sure which house your child is in, please contact the class teacher.)

25–26 February – Year 3 visiting Cardiff Bay Residential Centre

28 February (Saturday) – Cluster Eisteddfod, Glan Taf Comprehensive School

2 March – Wear something colourful to school in memory of Erwan

5 March – Celebrating Book Day at Ysgol Glan Ceubal (I wonder what you wear to read your favourite book before bed? Come in your pajamas and bring your favorite book!)

6 March – TWMPATH. Arranged by the Cyfeillion, more details on a separate post.

*PRESENOLDEB*

*Mae ein presenoldeb yr wythnos hon yn:*

ATTENDANCE

Attendance this week is at:

*Diolch unwaith eto am fod yn rhan annatod o gymuned Ysgol Glan Ceubal.*

Thank you once again for being such an important part of our school community.

*Cofion cynnes* / Kind regards,

Siân Eleri Fudge